Adnodd 9a.

# Cyfreithlon neu Anghyfreithlon? Cerdyn Datganiadau

**Datganiadau**

1. Mae athro/athrawes yn cyfathrebu â disgyblion drwy ebost er mwyn trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol

   **Ateb:** Cyfreithlon

2. Mae athro/athrawes yn "ffrind" i ddisgybl ar Facebook ac yn trafod materion personol gyda nhw.

   **Ateb**: Cyfreithlon – ond nid yw'r athro/athrawes yn ymddwyn yn broffesiynol.

3. Mae merch 16 oed yn penderfynu anfon llun bronnoeth o'i hun at ei chariad sy'n 17 oed.

   **Ateb:** Anghyfreithlon - mae tynnu ac anfon delwedd neu fideo rhywiol o'ch hun yn bornograffi plant, hyd yn oed os ydych eisiau ei wneud ac yn teimlo'n gyfforddus yn ei wneud.

4. Mae dynes 22 oed yn anfon llun noeth o'i hun at ei chariad sy'n 24 oed.

   **Ateb:** Cyfreithlon – ond gall fod canlyniadau anfwriadol i hyn petai'r llun yn cael ei rannu a'i weld gan eraill.

5. Mae bachgen 17 oed yn anfon delwedd noeth o'i hun at ferch 16 oed y maen ei ffansïo yn yr ysgol.

   **Ateb:** Anghyfreithlon – mae anfon llun at rywun sydd ddim ei eisiau yn anghyfreithlon.

6. Mae bachgen 15 oed yn tynnu llun o ddau ffrind sy'n 15 oed yn eu bicini ar y traeth ac yn rhoi'r llun ar Facebook.

   **Ateb:** Cyfreithiol, ond cyn postio lluniau o'ch ffrindiau gwiriwch eu bod yn hapus â hyn.

7. Mae athro yn fflyrtio efo disgybl drwy roi neges ar wefan cyfryngau cymdeithasol.

   **Ateb:** Nid yw'r athro yn ymddwyn yn broffesiynol ac mae'n anghyfreithlon os ydi'r disgybl dan 18 oed felly mae'n rhaid i chi riportio hyn i oedolyn.

8. Mae bachgen 16oed yn gofyn i'w gariad sydd hefyd yn 16oed anfon llun rhywiol ato ar ei benblwydd.

   **Ateb:** Anghyfreithlon – mae gofyn i rywun sydd dan 18 oed anfon llun noeth neu hanner noeth yn bornograffi plant.